

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

Y Cynghorydd Freya Bletsoe

Ward: Ward Hengastell

Plaid: Annibynnol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Ebrill 2023. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Ward Hengastell ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni ac wedi cael fy mhenodi i sawl pwyllgor, gan gynnwys cael fy mhenodi'n Gadeirydd Pwyllgor Craffu a Throsolwg 2 (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 103 ymholiad gan etholwyr yn ffurfiol drwy system atgyfeirio Aelodau'r Cyngor ynghyd â materion eraill a godwyd gyda sefydliadau allanol. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward yn cael ei chynnal.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am fy mhresenoldeb a fy ngwaith mewn pwyllgorau a'r Cyngor Llawn trwy ddefnyddio'r ddolen hon. [Cynghorydd Freya Bletsoe](#)

Gweithgarwch yn yr Etholaeth

Rwyf wedi gweithio'n gyson i ddod â hygyrchedd i'r anabl i'n parciau chwarae yn yr ardal, ar gyfer plant a gofalwyr. Rwyf wedi cefnogi gwelliannau tir y cyhoedd mewn ystadau tai cymdeithasol yn ein hardal ac wedi cynrychioli'r cyhoedd mewn apeliadau cynllunio PEDW. Rwyf wedi cefnogi trigolion yn y meysydd canlynol:- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Diogelwch Ffyrdd, addysg, gorfodaeth gwastraff, cynnal a chadw priffyrdd a gorfodi SRS ac eraill

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi bod yn annog teithio llesol o amgylch yr ardal ac wedi ymgymryd â rôl lysgenhadol gyda chwmni cenedlaethol i annog a gwella teithio llesol o amgylch ein tref. Rwyf hefyd wedi cymryd yr awenau ar fentrau blodau gwyllt o amgylch y dref yn ogystal â gweithredu menter "annigidol" yn ein ward i sicrhau nad oes unrhyw ddadryddfreinio i

drigolion nad ydynt yn ymgysylltu ar blatfformau digidol, a gwneir hyn trwy hysbysfyrddau newydd a chylchlythyrau.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rwyf wedi dod yn llywodraethwr Ysgol Heronsbridge. Rwyf wedi aros fel Cynghorydd Tref Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer Hengastell a dod yn Faeres Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Yn fy rôl fel Maeres rwyf wedi rhoi gweithgor ar waith i fynd i'r afael â'r diffyg cynllun tref a gweledigaeth gan y Cyngor Tref, mae hyn yn golygu gweithio gyda rhanddeiliaid niferus i sicrhau gweledigaeth a llais clir ar gyfer Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Rwyf hefyd wedi cysylltu'n gyson â'r holl bartneriaid sy'n gwasanaethu Ward Hengastell i sicrhau bod ymrwymiad parhaus i ddiogelwch yr holl breswylwyr.

Y Cynghorydd F Bletsoe

Dyddiad: 30 Mehefin 2023